OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 806

# Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

## RHAN 2

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid

**Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad sy'n dechrau gyda "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41""—

(aa) yn lle ", "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*")" rhodder "a Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*")";

(bb) hepgorer "a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*")";

(ii) yn y diffiniad o "mewnforyn trydedd wlad", yn lle "y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 54 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007" rhodder "y mae Rhan 3 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) yn gymwys mewn cysylltiad ag ef";

(b) ym mharagraff (2)(a), hepgorer "neu 7".

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 853/2004", yn lle ", Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005" rhodder "a Rheoliad 2074/2005";

(b) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 854/2004" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(**3**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2015/1375;";

(c) yn y diffiniad o "Rheoliad 882/2004", hepgorer "a Rheoliad 2076/2005";

(d) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2074/2005" rhodder—

(**1**) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252).
(**3**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 2).

"ystyr "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddiddymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**4**).";

(e) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2075/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**5**).";

(f) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 2076/2005".

(**4**) OJ Rhif 338, 22.12.2005, t. 27, fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 214, 9.8.2013, t. 11 ac fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd a ddaliwyd gan gychod sy'n cyhwfan baner Aelod Wladwriaeth ac a gyflwynir i'r Undeb wedi iddynt gael eu trosglwyddo mewn trydydd gwledydd ac yn sefydlu tystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer y cynhyrchion hynny (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 21).

(**5**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.